# Darren Millar AM / AC

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cyf: CA/SG/CC

29 Mai 2014

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Christine

**Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)**

Diolch am eich llythyr ar 9 Mai yn dilyn fy sesiwn gyda'r Pwyllgor ar 7 Mai i roi tystiolaeth yng nghyswllt Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru).

***Y Sefyllfa Ddeddfwriaethol ar Hyn o Bryd***

Cyn imi ymdrin â'ch cwestiynau penodol, efallai y byddai o gymorth pe bawn yn nodi rhai pwyntiau mwy cyffredinol ynglŷn â'r sefyllfa ddeddfwriaethol ar hyn o bryd. Nid yw'r Bil yn ceisio cyflwyno rheoleiddio mewn maes nad yw'n cael ei reoleiddio'n barod. Nid yw ond yn ymdrin â Safleoedd Carafannau Gwyliau sydd eisoes yn cael eu trwyddedu a'u rheoleiddio o safbwynt cynllunio o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960, Deddf Safleoedd Carafannau 1968 a chyfraith gynllunio berthnasol arall.

Fel yr wyf wedi egluro yn y Memorandwm Esboniadol, nid yw carafannau gwyliau wedi'u bwriadu i bobl fyw'n barhaol ynddynt, ac mewn llawer o achosion nid ydynt wedi cael eu dylunio i'r diben hwnnw. Yn fwy perthnasol, nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol wedi'i bwriadu i ganiatáu na hwyluso defnyddio safleoedd carafannau gwyliau fel llety preswyl parhaol.

Yn anffodus, mae'r ddeddfwriaeth bresennol a gweithredu gan y diwydiant carafannau gwyliau wedi profi'n aneffeithiol i atal defnyddio safleoedd carafannau gwyliau at ddibenion preswyl. Pwrpas fy Mil i yw rhoi i awdurdodau lleol y grym y mae ei angen arnynt i reoleiddio safleoedd carafannau gwyliau'n effeithiol ac i gynorthwyo perchnogion safleoedd carafannau gwyliau i wneud yn siŵr fod y carafannau ar eu safleoedd yn cael eu defnyddio fel llety gwyliau yn hytrach nag fel cartrefi parhaol – gan nad dyna eu diben, fel rwy'n siŵr y byddai pawb yn cytuno.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8731
E-bost / Email: darren.millar@wales.gov.uk
Web/Gwe: www.darrenmillaram.com

Yn y sesiwn ar 7 Mai, mynegodd Aelodau'r Pwyllgor rai pryderon nad oes digon o dystiolaeth efallai i gyfiawnhau deddfwriaeth. O ystyried faint o amser ac adnoddau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu darparu i gynorthwyo 'aelodau meinciau cefn' sy'n ceisio cyflwyno deddfwriaeth, rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n gwerthfawrogi na fu'n bosibl gwneud rhagor o ymchwil. Fodd bynnag, er fy mod yn derbyn na fydd modd efallai i'r dystiolaeth sydd ar gael ddangos union faint y broblem camddefnyddio preswyl, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn amlwg yn awgrymu problem yng Nghymru a diffyg trefniadau gorfodi i fynd i'r afael â hi.

O ystyried bod y dystiolaeth sydd wedi'i nodi yn y Memorandwm Esboniadol yn cyflwyno achos clir iawn i ddangos bod nifer sylweddol o garafannau gwyliau yng Nghymru yn cael eu camddefnyddio fel llety preswyl parhaol, a'i bod yn wir y tu hwnt i unrhyw ddadl nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol wedi'i bwriadu i ganiatáu defnydd o'r fath, credaf fod achos cryf bellach o blaid moderneiddio'r gyfundrefn drwyddedu, sydd dros 50 mlwydd oed, a'i gwneud yn addas i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Trof yn awr at eich cwestiynau penodol.

***Rhan 2 - Trwyddedu***

- *A yw'r amcangyfrif yn y Memorandwm Esboniadol o'r adnoddau y bydd eu hangen ar awdurdodau lleol i adnewyddu'r 1,500 o drwyddedau safle presennol yn y flwyddyn gyntaf yn amcangyfrif cadarn, o gofio'i fod yn seiliedig ar drafodaethau gyda dau awdurdod lleol?*

Rwy'n credu bod yr amcangyfrif yn un cadarn. Cysylltwyd â phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil a chafwyd ymateb gan 18 ohonynt. Cymharol ychydig o safleoedd carafannau gwyliau sydd gan y 4 na wnaeth ymateb yn eu hardaloedd nhw. Cynhaliwyd trafodaethau manwl pellach gyda dau awdurdod lleol sydd â chryn brofiad yn y maes hwn.

Hefyd, dylid nodi y bydd gan bob safle eu trwyddedau presennol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol ac y bydd y rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn yn parhau. Nid yw'n wir, felly, y bydd angen datblygu trwyddedau o'r newydd yn llwyr.

- *Pam mae'r Bil yn caniatáu i drwydded safle carafannau gwyliau barhau am gyfnod amhenodol (nes y caiff ei therfynu'n benodol), yn wahanol i'r Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, sy'n dweud nad oes modd rhoi trwydded sy'n para'n hwy na 5 mlynedd?*

Bydd safleoedd sydd eisoes wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf 1960 yn cael eu trin fel safleoedd â thrwydded o dan y Bil hwn. Bydd hyn yn lleihau'r baich gweinyddol ar berchnogion safleoedd ac awdurdodau lleol. Mae hyn yn parhau â'r trefniadau presennol o dan Ddeddf 1960 ac yn adlewyrchu pryderon yn y diwydiant ynglŷn ag effaith trwyddedau 'cyfnod cyfyngedig' ar eu busnesau, yn enwedig o ran gallu cyrchu at arian i ddatblygu'u busnesau. Fodd bynnag, bydd trwyddedau safle yn cael eu hadolygu bob pum mlynedd

Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn ddigon syml i'r rhan fwyaf o safleoedd ac ni fyddai disgwyl i amodau trwydded newid heb reswm haeddiannol. Gan fod pwerau gan awdurdodau lleol yn barod o dan Ddeddf 1960 i amrywio amodau trwydded neu i wneud cais i'r llys ynadon am ddirymu trwyddedau, yr unig fwriad wrth wraidd y ddyletswydd newydd yw cyflwyno cysondeb i'r trefniadau 'adolygu' anffurfiol sy'n digwydd yn barod ar sail ad hoc.

- *Beth yw bwriad ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol adolygu amodau trwydded safle bob pum mlynedd ar yr hwyaf?*

Gweler yr ateb i'r cwestiwn blaenorol.

- *Beth yw'r sail dros ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol archwilio safleoedd o leiaf unwaith bob tair blynedd fan leiaf ac a yw amserlen archwilio fel hyn yn rhesymol ac yn gymesur?*

I ddechrau roeddwn yn ffafrio archwiliadau mwy rheolaidd, blynyddol. Fodd bynnag, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant wedi fy argyhoeddi y byddai cyfnod hwy yn well.

Mae'n bwysig fod pob safle yn cael ei archwilio fel bod modd ymdrin â'r pryderon nad yw rhai safleoedd yn cael eu harchwilio a bod angen trin pawb yn yr un modd.

Drwy ei gwneud yn ofynnol cynnal archwiliad bob tair blynedd <u>o leiaf</u> gall awdurdodau lleol fabwysiadu trefn sy'n cael ei seilio ar risg a chynnal profion yn gynt neu'n fwy aml os ydynt yn credu bod angen gwneud hynny.

Mae'r cyfnod hwyaf o dair blynedd yn rhesymol ac yn gymesur. Efallai y byddai cyfnod byrrach wedi cael ei feirniadu am fod yn rhy drwm ar adnoddau i bawb dan sylw tra byddai cyfnod hwy wedi caniatáu i bethau lithro ac i safonau gwael ddechrau ymddangos.

- *Ydw i wedi cael unrhyw drafodaethau â*
    - *Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch goblygiadau ymarferol ac ariannol adran 15;*
    - *y Gwasanaeth Tân ac Achub a Cyfoeth Naturiol Cymru am oblygiadau ymarferol ac ariannol darparu cyngor fel rhan o adnewyddu trwyddedau presennol safleoedd (gan amcangyfrif bod oddeutu 1,500 ohonynt) o fewn blwyddyn gyntaf cychwyn y ddeddfwriaeth?*

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau ychwanegol i Awdurdodau Tân. Mae rheoli risg tân yn rhan o'r ddeddfwriaeth bresennol drwy adran 5 yn Neddf 1960. Cedwir y gofynion hyn fel rhan o'm Bil i ond nid oes gofynion ychwanegol.

Rwyf wedi trafod y Bil gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd wedi datgan cefnogaeth mewn egwyddor i'm cynigion. Nid yw goblygiadau'r Bil yn feichus nac yn afresymol, ac mae'r adnoddau ar-lein sydd ar gael, fel mapiau cynghori TAN15 Datblygu a Pherygl o Lifogydd, yn dangos ar unwaith a yw safle wedi'i leoli mewn ardal lle mae perygl o lifogydd.

Mae'r llifogydd dros y gaeaf yn dangos mor bwysig yw bod cynlluniau perygl llifogydd digonol ar gael ar gyfer Safleoedd Carafannau Gwyliau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd. O ystyried cyfrifoldebau allweddol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran rheoli'r perygl o lifogydd yng Nghymru, rwy'n gobeithio y bydd Aelodau'r Pwyllgor yn croesawu'r mesurau diogelu ychwanegol sy'n cael eu cynnig yn y Bil hwn.

- *A allaf sôn am y sylfaen dystiolaeth sy'n dangos bod angen cyflwyno prawf person addas a phriodol ar gyfer rheolwyr safle carafannau gwyliau?*

Mae Safleoedd Carafannau Gwyliau yn rhan bwysig o'r economi twristiaeth. Rwy'n creu eu bod at ei gilydd yn cael eu cynnal gan bobl onest a galluog. Nid oes gan weithredwyr da ddim i'm ofni o'r darpariaethau hyn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod hynny'n parhau a bod y safonau uchaf yn cael eu cynnal. Dylai safleoedd carafannau gwyliau barhau i fod yn fannau o fwynhad a diogelwch i'r teuluoedd a'r plant niferus sy'n eu defnyddio. Bydd cyflwyno Prawf Person Addas a Phriodol

cadarn yn sicrhau bod safonau uchel yn parhau a bod yr awdurdodau'n canfod unrhyw weithredwyr diegwyddor.

- *Pam mae'r prawf person addas a phriodol sydd yn adran 33 o'r Bil wedi'i ddrafftio mewn ffordd sy'n golygu bod ei gwmpas yn fwy eang na'r prawf yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru)?*

Mae model busnes a maint y diwydiant Safleoedd Carafannau Gwyliau yn wahanol i'r sector cartrefi mewn parciau. Mae Safleoedd Carafannau Gwyliau yn aml yn eiddo i gwmnïau mawr ac yn cael eu rhedeg gan y cwmnïau hynny ac mae angen trefniadau pur wahanol (i'r rhai ar gyfer Cartrefi mewn Parciau) i sicrhau bod y prawf yn gymwys i'r bobl iawn o fewn strwythur rheoli'r cwmni.

Bydd y prawf sy'n cael ei gynnig yn y Bil yn sicrhau bod pob unigolyn sy'n gyfrifol am reolaeth y Safle Carafannau Gwyliau o ddydd i ddydd (h.y. y rheolwyr ar lawr gwlad) yn ddarostyngedig iddo.

Bydd hyn yn atal y sefyllfa lle mae person addas a phriodol ar lawr gwlad yn cael cyfarwyddiadau ynglŷn â rheoli'r safle gan berson uwch i fyny yn y sefydliad nad yw'n addas a phriodol. Felly, mae'r prawf yn gymwys i bob unigolyn sydd â rôl yn y gwaith o reoli'r safle ac unigolion sy'n rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â rheoli'r safle.

Mae trefniadau apêl cadarn yn y Bil wrth gwrs pe bai unrhyw un am herio penderfyniad awdurdod lleol nad yw rhywun yn berson addas a phriodol.

- *Beth yw'r goblygiadau ymarferol ac ariannol i awdurdodau lleol yn sgil y gofyniad i gynnal prawf person addas a phriodol ar gyfer rheolwyr presennol safleoedd o fewn 12 mis ar ôl cychwyn adran 9?*

Mae amcangyfrifon o'r costau a'r goblygiadau cysylltiol i berchnogion safleoedd wedi'u nodi ym mharagraff 203 yn y Memorandwm Esboniadol. Yn gryno, amcangyfrifir y bydd y rhain yn £95,000 yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cychwyn a £9,500 yn y blynyddoedd dilynol.

Mae'r costau i awdurdodau lleol o ran adolygu trwyddedau, yn cynnwys sicrhau eu bod wedi darparu tystiolaeth ddigonol i fodloni'r meini prawf ynglŷn â phersonau addas a phriodol yn rheoli'r safle, wedi'u nodi ym Mharagraff 191 yn y Memorandwm Esboniadol.

- *Beth yw'r rheswm dros fynnu bod awdurdodau lleol yn ystyried, fel rhan o'r prawf, dystiolaeth sy'n dangos bod y rheolwr wedi torri cyfraith safonau masnach?*

Mae angen i Safleoedd Carafannau Gwyliau fod yn fannau o ddiogelwch a mwynhad i deuluoedd a'u plant. Bydd y prawf yn help i sicrhau bod pobl briodol yn gyfrifol am safleoedd i sicrhau mai felly y mae hi. Bydd llawer o safleoedd gwyliau, wrth gwrs, yn cynnwys unedau manwerthu ac adloniant lle mae'n hynod bwysig gweithredu'n ddi-fai ar faterion Safonau Masnach.

Hefyd, mae camddefnydd preswyl o garafannau gwyliau'n digwydd weithiau am fod gweithredwyr Safle Carafannau Gwyliau wedi rhoi gwybodaeth gamarweiniol pan fydd cwsmer yn prynu carafan wyliau. Dylai ystyried unrhyw dramgwydd o ran gwerthu carafannau gwyliau, neu werthu mewn diwydiant tebyg, fod yn ffactor pwysig felly wrth benderfynu a yw rhywun yn berson addas a phriodol i ddibenion y prawf.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn glir – er bod rhaid i awdurdodau lleol ystyried y materion sydd wedi'u nodi yn Adran 34 o'r Bil, nid oes yr un o'r materion hyn ynddo'i hun yn gwahardd

rhywun rhag cael ei ystyried yn berson addas a phriodol. Yn yr un modd, bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol hefyd i ystyried unrhyw faterion eraill y maen nhw'n eu hystyried yn briodol.

***Canlyniadau anfwriadol***

- *Beth yw sylfaen y dystiolaeth ar gyfer yr honiad yn y Memorandwm Esboniadol sy'n nodi 'ni ddylai nifer fawr o bobl fod yn ddigartref o ganlyniad i'r Bil' a sut y gellir cysoni hyn â'r diffyg data cadarn fel y nodwyd ym mharagraff 144 o'r Memorandwm Esboniadol?*
- *Sut mae'r honiad hwn yn cydweddu â'r ffaith bod rhai o'r bobl y bydd y Bil yn effeithio arnynt yn hawlio budd-dal tai ac y gellid tybio eu bod yn debygol o gyflwyno eu hunain yn ddigartref i awdurdodau lleol?*

Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol wedi'i dylunio na'i bwriadu i hwyluso defnyddio carafannau gwyliau fel llety parhaol. Mae'r Bil yn ceisio sicrhau y bydd carafannau gwyliau yn y dyfodol yn cael eu defnyddio at ddibenion gwyliau yn hytrach nag fel cartrefi parhaol. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i rai pobl, sydd ar hyn o bryd yn byw mewn carafannau gwyliau, ddod o hyd i lety amgen, ond bydd digon o amser i'r rhai sy'n byw mewn carafannau gwyliau i baratoi a gwneud trefniadau llety amgen cyn i'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth ddod i rym.

Hefyd, mae amseriad cychwyn y ddeddfwriaeth, os caiff ei mabwysiadu, yn llwyr bron ar ddisgresiwn Gweinidogion Cymru. Byddwn yn disgwyl iddynt ymgynghori'n eang cyn cychwyn darpariaethau allweddol. Mewn rhai achosion, mae gofynion pellach ar wyneb y Bil i ymgynghori cyn defnyddio pwerau.

Hyd yn oed ar ôl cychwyn, ac unrhyw ymgynghori angenrheidiol, bydd gan berchnogion safleoedd dri mis pellach i gynnal y prawf preswylio a bydd gan feddianwyr hawliau apelio wedyn.

Bydd cryn dipyn o amser felly i feddianwyr carafannau gwyliau wneud trefniadau llety amgen, a chofio bod gan lawer o'r rhai sy'n byw mewn carafannau gwyliau adnoddau sylweddol yn aml ac na fyddent, felly, yn cyflwyno'u hunain fel pobl ddigartref.

Casglwyd data oddi wrth awdurdodau lleol wrth ddatblygu'r Bil. Dangosai'r data fod niferoedd arwyddocaol, er nad niferoedd mawr, o bobl sy'n hawlio Budd-dal Tai yn byw mewn carafannau gwyliau. Gallai rhai o'r hawlwyr hyn geisio cymorth yr awdurdod lleol o dan y ddeddfwriaeth digartrefedd ond nid yw'r niferoedd yn debygol o fod yn fawr, yn enwedig gan y bydd llawer ohonynt yn gwneud trefniadau amgen ymhell cyn y bydd gofyniad cyfreithiol arnynt i adael eu llety.

Wrth gwrs, dylai awdurdodau lleol gymryd camau i helpu pobl sy'n agored i niwed sy'n byw mewn llety anaddas ac mae'r cynnydd yn y pwyslais y mae awdurdodau lleol yn ei roi ar atal digartrefedd yn fy nghalonogi. Rwy'n hyderus y byddant yn rhagweithiol yn y cyswllt hwn. Nodaf y bydd Bil Tai (Cymru) yn rhoi gwaith atal digartrefedd ar sail statudol ac rwy'n croesawu'r datblygiad hwn.

Tra wyf yn nodi'r pryderon ehangach ynglŷn â'r angen am gyflenwad mwy o dai fforddiadwy ar draws Cymru, rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno nad yw defnyddio carafannau gwyliau fel cartrefi parhaol rhad yn rhywbeth i'w ddymuno.

Yn olaf, hyd yn oed os oes rhai canlyniadau anfwriadol, ni ddylai'r rhain ailddigwydd gan y bydd y Bil yn atal unrhyw feddiannu preswyl parhaol arwyddocaol ar garafannau gwyliau yn y dyfodol.

- *A oes unrhyw asesiad wedi cael ei wneud o'r posibilrwydd y gallai'r ffioedd y bydd perchnogion carafannau gwyliau yn eu talu'n codi yn sgil y Bil hwn, o gofio nad yw'r Bil yn atal perchnogion safleoedd yn benodol rhag trosglwyddo costau cydymffurfio â'r Bil?*

Nid yw'n bosibl dweud yn bendant na fydd perchnogion safleoedd yn trosglwyddo costau ychwanegol i berchnogion carafannau. Fodd bynnag, mae'n farchnad gystadleuol ac mae hynny'n debygol o liniaru'r risg i ryw raddau. Yn fwy na hynny, cymharol fach yw'r costau dan sylw. Mae'r amcangyfrifon yn y Memorandwm Esboniadol ym mharagraff 199 yn nodi cost lawn yr uned o ddim ond £3.43 y flwyddyn dros y 5 mlynedd cyntaf ar ôl cychwyn. Rwyf hefyd wedi nodi amcangyfrif o'r costau i berchnogion safleoedd ym mharagraff 225 o'r Memorandwm Esboniadol, ac mae'r rhain wedi'u crynhoi ymhellach yn y tabl ar dudalen 65.

Hefyd, bydd y datganiadau ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan Adran 55 y Bil yn help i sicrhau bod gan feddianwyr fwy o eglurder ynglŷn â ffioedd cyn iddynt ymrwymo i gytundebau.

- *A oes perygl, os caiff y Bil ei basio, y bydd perchnogion safleoedd carafannau gwyliau'n gwneud cais am gael eu trwyddedu'n safleoedd preswyl er mwyn osgoi'r drefn reoleiddio newydd?*
- *Os oes, pa effaith y gallai hyn ei chael ar y diwydiant carafannau gwyliau yng Nghymru?*

Ni welaf unrhyw reswm pam y byddai niferoedd sylweddol o safleoedd carafannau gwyliau yn dewis newid eu model busnes a gwneud cais i gael eu rheoleiddio o dan fframwaith rheoleiddio llymach na'r hyn sy'n cael ei gynnig yn fy Mil i. Fodd bynnag, efallai fod nifer cyfyngedig o achosion lle gallai hyn ddigwydd. Os bydd perchnogion safleoedd yn dewis gwneud hyn, byddant yn cael eu rheoleiddio wedyn o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, sef y fframwaith rheoleiddio priodol i safleoedd preswyl.

***Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurhad pellach ar y pwyntiau canlynol a godwyd yn ystod y cyfarfod.***

- *a yw'r darpariaethau yn adran 61 ond yn gymwys mewn achosion lle mae perchennog y safle yn cymryd camau yn unol â chyfarwyddiadau a roddir gan awdurdod lleol o dan adran 53?*

Na. Mae'r amddiffyniad yn gymwys o dan yr amgylchiadau a nodir yn adran 61, ac mae angen ei ystyried o dan yr holl amgylchiadau a allai fodoli, er y gallai hyn gynnwys amgylchiadau a achosir gan gyfarwyddiadau a roddir o dan adran 53. Mae'r amddiffyniad wedi'i seilio ar yr hyn sy'n rhesymol, a byddai angen i hynny gael ei bennu gan lys. Lle mae'r ymyrryd yn afresymol, ni fydd yr amddiffyniad ar gael.

Cymerwyd y geiriad o Ddeddf 2013 ac mae'n darparu amddiffyniad synhwyrol i bobl sy'n ymyrryd yn anfwriadol â mwynhad meddiannydd o garafan wyliau.

Er enghraifft, gallai fod diffyg eglurder ynglŷn â phryd mae cytundeb carafan wyliau yn dod i ben, e.e. gallai rheolwr safle fod yn credu'n rhesymol fod cytundeb carafan wyliau wedi dod i ben er bod y cytundeb mewn gwirionedd yn dal mewn grym. (Er y dylid nodi bod y Bil yn gwneud darpariaeth benodol i atal dryswch o'r fath rhag codi, gan fod gofyniad penodol am eglurder ynglŷn â dyddiadau cychwyn a gorffen cytundebau carafannau gwyliau.)

Dylid nodi hefyd nad yw'r amddiffyniad yn Adran 61 yn effeithio ar gyfraith droseddol arall sy'n delio ag aflonyddu.

- *A allai cofnodion pensiwn gael eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer y prawf preswylio; eithriadau rhag gofynion yn y Bil ar gyfer safleoedd carafannau teithiol a pherchnogion tir sy'n caniatáu i garafanau teithiol aros ar eu tir o dro i dro?*

Mae tystiolaeth at ddibenion y prawf preswylio yn cynnwys cyfeiriad y meddiannydd ar gyfer gohebu gyda sefydliad ariannol. Ni welaf unrhyw reswm pam na ddylai hyn gynnwys darparwr pensiwn.

- *Beth yw'r sail ar gyfer y ffigurau a ddarparwyd yn y Memorandwm Esboniadol, sy'n amcangyfrif y bydd y costau gweinyddol i berchnogion safleoedd o gwrdd â'r holl ofynion mewn perthynas â'r Bil yn £100 y safle yn y flwyddyn gyntaf ac, yn benodol mewn perthynas â'r prawf preswylio, yn £75 y flwyddyn o flwyddyn 2 ymlaen?*

Mae'r rhagdybiaethau wrth wraidd yr amcangyfrif wedi'u nodi ym mharagraff 205 y Memorandwm Esboniadol. Mae wedi'i seilio ar amser gweinyddol o oddeutu diwrnod bob dwy flynedd ynglŷn â diweddaru blynyddol a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol ynglŷn â phrif gyfeiriad perchnogion carafannau ac unrhyw ymwelwyr sy'n aros mwy na 6 wythnos. Bydd y costau ychydig yn uwch yn y flwyddyn gyntaf felly rydym wedi rhagdybio ffigur o £100 ar gyfer y flwyddyn honno.

Hefyd, rydym wedi amcangyfrif y bydd cost flynyddol lawn monitro safleoedd gan Awdurdodau Lleol yn £110,000 y flwyddyn, a hynny wedi'i seilio ar drafodaethau ag awdurdodau lleol. Mae'r rhagdybiaeth o gost flynyddol lawn o £150,000 i berchnogion safleoedd yn y flwyddyn gyntaf a £112,500 wedi hynny yn un rhesymol mewn cymhariaeth.

***Yn olaf, gwnaethoch hefyd gytuno i ddarparu nodyn mewn perthynas â chyfleoedd a allai godi o'r Bil ar gyfer diogelu defnyddwyr.***

Fel yr eglurais yn y cyfarfod, nid Bil yn ymwneud â diogelu defnyddwyr yw hwn yn bennaf – yn ôl a ddeallaf, nid oes gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol llawn dros ddiogelu defnyddwyr. Fodd bynnag, mae agweddau penodol o'r Bil yr wyf yn siŵr y bydd defnyddwyr yn eu croesawu. Mae'r rhain yn cynnwys y gofynion newydd mewn perthynas â:

- Chytundebau ysgrifenedig (Adran 55);
- Telerau ymhlyg safonol i gytundebau (Adran 56);
- Yr hawl i gael mynegi barn ar newidiadau arwyddocaol yn ymwneud â rheoli neu weithredu safleoedd (ymgynghori) (Adran 56);
- Rheoli perygl o lifogydd (Adran 12, 15, 16 a 18);
- Diogelu rhag aflonyddu (Rhan 5);
- Y sicrwydd y mae'r Prawf Person Addas a Phriodol yn ei gynnig (Adran 33);
- Gorchmynion ad-dalu (adran 38); a
- Y defnydd o reolwyr interim (adran 35).

Edrychaf ymlaen at roi tystiolaeth i'r Pwyllgor eto pan fydd wedi cael cyfle i ystyried tystiolaeth tystion eraill.

Yn gywir



**Darren Millar AC**